Pecyn Dogfennau Cyhoeddus

1	HYSBYSIAD O BENDERFYNIADAU'R PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG O'R CYFARFOD A GYNHALIWYD DDYDD MAWRTH 29 MEHEFIN 2021.	1 - 2

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

HYSBYSIAD O'R PENDERFYNIADAU O GYFARFOD Y PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A GYNHALIWYD AR MICROSOFT TEAMS DDYDD MAWRTH 29 MEHEFIN 2021 AM 5.30PM

YN BRESENNOL:

Cynghorwyr: Mrs E. M. Aldworth, C. Andrews (Is-gadeirydd), P. J. Bevan, A. Collis, W. David, A. Farina-Childs, Ms J. Gale, B. Miles, Mrs T. Parry (Cadeirydd), J. E. Roberts, a J. Simmonds.

Aelod Cabinet: Y Cynghorydd R. Whiting (Aelod Cabinet dros Ddysgu a Hamdden).

Swyddogion: R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), S. Richards (Pennaeth Cynllunio a Strategaeth Addysg), P. Warren (Arweinydd Strategol ar gyfer Gwella Ysgolion), S. Ellis (Arweinydd Cynhwysiant ac Anghenion Dysgu Ychwanegol), J. Southcombe (Rheolwr Cyllid), J. Kent (Gwasanaeth Cyrhaeddiad Addysg), E. Pryce (Education Achievement Service), M. Jacques (Swyddog Craffu), S. Hughes (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor) a J. Lloyd (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

Hefyd yn bresennol:

Aelodau Cyfetholedig: Mr M. Western (Cynrychiolydd Comisiwn Archesgobaethol Eglwys Uniongred Rwsia Caerdydd dros Addysg), Mrs T. Millington (Cynrychiolydd Rhiant-lywodraethwr), a Mr G. James (Cynrychiolydd Rhiant-lywodraethwr).

YMDDIHEURIADAU:

Cynghorwyr: D. T. Hardacre, D. Havard, M. P. James, Mrs B. A. Jones a Mrs G. D. Oliver.

Aelodau Cyfetholedig: Mr D. Davies (Cymdeithas Llywodraethwyr Caerffili).

Mae'r penderfyniadau a'r datganiadau o fuddiant wedi'u nodi isod. Am ragor o fanylion, cyfeiriwch at yr adroddiad perthnasol.

EITEM	PWNC	PENDERFYNIAD	PLEIDLAIS
2.	Datganiadau o fuddiant.	Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.	Dd/B
3.	Cymeradwyo a llofnodi'r cofnodion canlynol: Pwyllgor Craffu Addysg a gynhaliwyd ar 17 Mai 2021.	Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg a gynhaliwyd ar 17 Mai 2021 fel cofnod cywir.	12 o blaid 0 yn erbyn 0 ymatal
4.	Ystyried unrhyw fater a gyfeirir at y Pwyllgor hwn yn unol â'r weithdrefn galw i mewn.	Nid oedd unrhyw faterion wedi'u galw i mewn.	Dd/B
5.	Blaenraglen Waith y Pwyllgor Craffu Addysg.	Cynigiwyd ychwanegu'r ddwy eitem ganlynol i Flaenraglen Waith y Pwyllgor Craffu Addysg: • Adroddiad ar y gyfradd ymateb gan ysgolion pan ofynnwyd iddyn nhw	12 o blaid 0 yn erbyn 0 ymatal

		gyflwyno adroddiadau i Baneli Maeth. • Adroddiad diweddaru rheolaidd ar y Cwricwlwm Newydd i Gymru. Gwnaethpwyd cais hefyd i wahodd Penaethiaid i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor. Yn dilyn ystyried yr adroddiad, ac yn amodol ar yr adroddiadau ychwanegol a gynigiwyd, cynigiwyd ac eiliwyd cymeradwyo'r argymhellion. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy ddefnyddio Microsoft Forms i bleidleisio. PENDERFYNWYD cyhoeddi Blaenraglen Waith y Pwyllgor Craffu Addysg ar wefan y Cyngor.	
6.	Cael ac ystyried yr adroddiadau i'r Cabinet a restrir ar yr Agenda.	Ni chafodd unrhyw un o'r adroddiadau i'r Cabinet a restrir ar yr agenda eu galw ymlaen i'w drafod yn y cyfarfod.	Dd/B
7.	Compendiwm Cynhwysiant.	Nododd y Pwyllgor Craffu Addysg gynnwys yr adroddiad a mynegi'u barn fel rhan o'r broses ymgynghori.	Dd/B
8.	Strategaeth NEET.	Nododd y Pwyllgor Craffu Addysg gynnwys yr adroddiad a mynegi'u barn fel rhan o'r broses ymgynghori.	Dd/B
9.	Cytundebau Lefel Gwasanaeth.	Nododd y Pwyllgor Craffu Addysg gynnwys yr adroddiad.	Dd/B
10.	Gweithredu'r Cwricwlwm Newydd i Gymru	Nododd y Pwyllgor Craffu Addysg gynnwys yr adroddiad.	Dd/B

Cylchrediad:

Cyhoeddwyd yn electronig erbyn 5.00pm ddydd Mercher 30 Mehefin 2021.